**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/GT/5365/13

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Tachwedd 2013

Annwyl David,

Yn ddiweddar, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i roi'r diweddaraf am y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer cynllunio'r broses o bontio i fyd oedolion ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fy mod wedi cytuno i dri awdurdod lleol (Gwynedd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) dreialu'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn eu hardaloedd yn ystod 2013/14 (gan ddefnyddio'r pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989) i'n galluogi ni, o glywed am y profiadau yn yr ardaloedd hynny i lunio canllaw a'i ddatblygu ymhellach. O wneud hyn gallwn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Hefyd, Mae fy swyddogion wedi sefydlu grŵp monitro i goladu gwybodaeth a data o'r ardaloedd treialu er mwyn llunio'r datblygiadau pellach i'r canllaw hwn.

Mae'r canlynol yn rhan o'r grŵp monitro:- cynrychiolaeth o'r tair ardal dreialu, cynrychiolaeth o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/CLlLC, y Rhwydwaith Maethu a Gweithredu dros Blant. Hyd yn hyn mae dau gyfarfod wedi eu cynnal ac mae'n fwriad cynnal un arall yn gynnar ym mis Rhagfyr. Yn y cyfarfodydd teimlir bod gwaith da yn cael ei wneud. Mae fy swyddogion yn cael adroddiadau am brofiadau cyffredinol y tair ardal dreialu yn y cyfarfodydd hyn. Maent hefyd yn rhoi adroddiadau iddynt ar y themâu penodol a roddwyd iddynt, sef, agweddau ariannol ar Hap-dreial wedi'i Reoli, materion yn ymwneud â gofalwyr maeth yng Ngwynedd a gweithdrefnau a pholisïau – gan gynnwys materion diogelu - ym Merthyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae’r cyfarfodydd wedi bod yn enghraifft wych o weithio ar y cyd. Mae’r trydydd sector wedi llunio offer pecyn monitro sy’n cynnwys holl amcanion y cynllun ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi’r grŵp â’i waith cynllunio.

Hyd yn hyn, yn y cyfarfodydd sydd wedi’u cynnal, nid yw’r rhanddeiliaid wedi dweud bod unrhyw fwlch mewn deddfwriaeth a allai gael effaith ar roi ‘Pan Fydda i’n Barod’ ar waith ar ddiwedd y cyfnod treialu.

Gobeithio bod yr wybodaeth yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services